# ADDEWIDION MAWRION
## YR
# EFENGYL.

A Gyfansoddwyd gan

DAFYDD WILLIAM, O LLAN-
DILO-FACH.

*CAERFYRDDIN,*

Argraphwyd gan J. EVANS.——1804.

1 FY enaid clyw a deffro, *newydd da,*
*newydd da,*
A chân i'r Brenhin Silo, *newydd da;*
Fe lammodd dros y bryniau,
Fe neidiodd dros fynyddau,
Fe dynnoddd golyn angau,
Pwy berchen ffydd na chanai? &c. &c.
2 Fe ddaeth y flwyddyn Jubil, &c. &c.
O hyfryd lais 'r Efengyl, &c.
Mae'n cerdded bryn a bronydd,
Fel hyfryd fân gafodydd,
I'w chanfod ar ei chynnydd,
Mor hyfryd ei lleferydd! &c. &c.
3 Mae bara i'r newynog, &c. &c.
Mae pardwn i'r rhai euog, &c.

Mae bywyd i'r rhai meirwon,
Mae rhydd-did i'r rhai caethion,
Mae meddyg i'r rhai cleifion,
Fe dalwyd dyled Seion, &c. &c.

4 Mae ffordd i'r pererinion, &c. &c.
Yn rhydd i fynydd Seion, &c.
Mae'r llewod cryf a'r deigrau,
Gan Ieſu mewn cadwynau,
Cawn ſathru ar eu gyddfau,
A chau eu duon ſafnau, &c. &c.

5 Ni all y llew ond rhuo, &c. &c.
A chrynu ac arſwydo, &c.
Wrth wel'd y praidd mor ddiogel,
Dan aden Brenhin Iſrael,
Holl adar mân y demel,
Sydd mewn gorphwysfa dawel, &c. &c.

6 Cymmerwn galon frodyr, &c. &c.
Mae'r Ieſu yn y frwydyr, &c.
O gadwn bawb ein harfau,
Fe chwareu rhagluniaethau,
Cawn weled dyddiau golau,
A chanu ar delynau, &c. &c.

7 Fe wnaeth i'r pryfed mana, &c. &c.
O blaid i'w blant ryfela, &c.
Fe attal gwynt a 'ſtormydd,
Fe ſych y môr os gorfydd,
Fe daro ddw'r o'r creigydd,
Try galar yn llawenydd, &c. &c.

8 Mae gwledd a moethau ddigon, &c. &c.
Yn rhad i'r plant afradlon, &c.
Gan frawd a aned inni,
O! erbyn dydd caledi,

Am danom mae'n gofalu,
Pwy ddichon lai na chanu? &c. &c.
9 Mae arch yn barod heddyw, &c. &c.
I ffoi cyn delo'r diluw, &c.
Fe brynwyd inni bardwn,
O'r fagal gryf ni ddiangwn,
Dattododd ynteu'r cwlwm,
O! Haleluia canwn, &c. &c.
10 Daw'r dydd i rwymo'r bwyftfil, &c. &c.
Hen elyn yr efengyl, &c.
Yr anghrift melldigedig,
Y carnol 'nifail cyrnig,
Hyll adwyth fab colledig,
Mae'i freichiau yn friwedig, &c. &c.
11 Mae'r Efengyl ar ei chynnydd, &c. &c.
O'r moroedd mawr i'r mynydd, &c.
Nid yfgafn mae'n gorefygn,
Mae'r milwr yn y fyddin,
A'i ddyfwn gleddyf dau-fin,
Er gwaetha' annuwiol werin, &c. &c.
12 Mae bugail mawr y defaid, &c. &c.
Yn gwylio rhag y bleiddiaid, &c.
Fe gadw ei braidd mor anw'l,
Yn fwynaidd ac yn fanwl,
Y meddal a'r gwan-feddwl,
Ne's delo ar y cwmmwl, &c. &c.
13 Fe dderfydd galar Seion, &c. &c.
Mae'n efgor ar ei meibion, &c.
Mae'i phlant hi ar ei gliniau,
Yn fugno llaeth o'i bronnau,
A'u hyfryd ber ganiadau,
Fel tyrfa yn cadw gwyliau, &c. &c.

4 Mae Seion wych mor enwog, &c. &c.
A'i hyfryd welydd caerog, &c.
Mae'i gadarn air a'i arfaeth,
A'i hyfryd ddoeth ragluniaeth,
Ffyddlondeb holl-wybodaeth,
Yw mariau'r iechawdwriaeth, &c. &c.

15 Mae'r ſaint yn ddiogel ddigon, &c. &c.
Oddi ſewn i'r muriau mawrion, &c.
Ni chollwyd, ac ni chollir,
Ni thorwyd, ac ni thorrir,
Gan ſatan ddig a'i filwyr,
Trwy un o'r cadarn ragfur, &c. &c.

16 Fe 'nillodd Criſt y frwydyr, &c. &c.
Dros bawb o'i ffyddlon frodyr, &c.
Fe a'u tynodd o'u caethiwed,
Yn ddiflin maeddodd ddiafliaid,
Fe wnaeth wrth fodd fy enaid,
Clod iddo ar ei filſed, &c. &c.

17 Bydd canu gan ſyrddiynau, &c. &c.
Ar dafod ac ar dannau, &c.
Pan ddelo'r gwaredigion,
I gyd i ſynydd Seion,
Fe genir yno yn gyſſon,
I'r hwn ſu dan yr hoelion, &c. &c.

18 Cawn ddioſg gwiſgoedd galar, &c. &c.
'Nol gadael gwag-le'r ddaear, &c.
Cawn wiſgoedd na heneiddiant,
A gynau mewn gogoniant,
Ar gyfrif Criſt ein haeddiant,
I'w enw byddo'r moliant, &c. &c.

DIWEDD.